CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# POLISI TYWYDD GARW

**Am y polisi hwn**

Mae'r awdurdod yn cydnabod y gall gweithwyr wynebu anawsterau yn mynychu eu man gwaith ac yn dychwelyd adref yn ystod cyfnodau o dywydd garw.  Tra bod yr awdurdod yn ymrwymedig i warchod iechyd a diogelwch ei holl weithwyr, rhaid iddo sicrhau bod unrhyw amhariad a achoswyd i'w wasanaethau yn parhau i fod yn fach iawn.

Diben y polisi hwn yw amlinellu cyfrifoldebau gweithwyr ar gyfer presenoldeb yn y gwaith yn ystod tywydd garw ac i ddiffinio gweithdrefnau priodol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bawb sy'n gweithio i'r Cyngor ac eithrio'r rheini a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion.  Fodd bynnag, dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol i'r ffordd o drin staff yn yr ysgolion mewn perthynas â thywydd drwg i sicrhau bod holl staff yr Awdurdod yn cael eu trin yn gyfartal.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Rhagfyr 2013 | |
| 1.1 | Rhagfyr 2016 | Adolygiad tair blynedd |
| 1.2 | Rhagfyr 2019 | Adolygiad tair blynedd |
| 1.3 | Chwefror 2022 | Adolygiad tair blynedd |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Adolygir y polisi ar : | Chwefror 2025 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Kirsty Haston |

**Manylion cyswllt:**

**Kirsty Haston , Adnoddau Dynol**
**Rhif ffôn: 01248 752902**
**E-bost : kirstyhaston@ynysmon.gov.uk**

**PWRPAS**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall gweithwyr wynebu anawsterau wrth fynychu eu man gwaith a dychwelyd adref yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Tra bod yr awdurdod yn ymrwymedig i warchod iechyd a diogelwch ei holl weithwyr, rhaid iddo sicrhau bod unrhyw amhariad a achoswyd i'w wasanaethau yn parhau i fod yn fach iawn. Diben y polisi hwn yw amlinellu cyfrifoldebau gweithwyr ar gyfer presenoldeb yn y gwaith yn ystod tywydd garw a diffinio'r gweithdrefnau priodol.

**SGÔP**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bawb sy'n gweithio i'r Cyngor ac eithrio'r rheiny a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion. Fodd bynnag, dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol i'r ffordd o drin staff yn yr ysgolion mewn perthynas â thywydd garw i sicrhau bod holl staff yr Awdurdod yn cael eu trin yn gyfartal.

**EGWYDDORION**

Dylai gweithwyr wneud pob ymdrech i fynychu'r gwaith, waeth beth fo'r amgylchiadau, os oes raid iddynt fod yn bresennol yn y gweithle fel rhan o'u rôl. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gan yr awdurdod bod gweithwyr yn rhoi eu hunain mewn perygl diangen wrth geisio dod i'r gwaith. Dylai aelodau staff ddefnyddio eu synnwyr cyfredin ac, os na allant ddod i'r gwaith, yna dylent gysylltu â'u rheolwr llinell cyn gynted ag y bo modd.

**Parhad Busnes** – dylai rheolwyr gymryd yr holl gamau rhesymol cyn gynted ag y bo modd (yn awr) i sicrhau parhad **gwasanaethau hanfodol** (gweler Nodyn 1 isod) yn ystod cyfnodau pan fo tywydd garw'n cael ei ddarogan gan gynnwys cadw manylion cyswllt gweithwyr, trefnu cludiant addas i'r gwaith a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol **ymlaen llaw** (gweler Nodyn 2 isod) ar gyfer gweithio o'r cartref, lle bo hynny'n berthnasol.
**Nodyn 1** : gwasanaethau hanfodol yw'r rheiny a nodwyd fel rhai y mae angen cynllun parhad busnes "gwasanaethau hanfodol" ar eu cyfer.
**Nodyn 2** : nid yw'r rhagolygon o dywydd garw yn ddigon ynddynt eu hunain i gyfiawnhau ceisiadau newydd am gyfleusterau TG yn y cartref ar gyfer staff.

**GWEITHDREFN**

**A – Pan fo tywydd garw yn cael ei ddarogan**

1. Dylai gweithwyr drafod goblygiadau posib y tywydd garw a ragwelir gyda'u rheolwr llinell o ran eu gallu i ddod i'r gwaith. Cyfeiriad penodol i'w gynnwys sy'n ystyried anghenion gweithwyr ag anableddau ac addasiadau rhesymol posibl.

2. Os oes posibilrwydd na fydd gweithiwr yn gallu dod i'w le gwaith arferol, ni fydd absenoldeb arbennig yn cael ei roi, ond ystyrir yr opsiynau isod:-
   a) Bod y gweithiwr yn mynd i weithio i un o leoliadau gwaith eraill y Cyngor, os yw hynny'n rhesymol ymarferol, a chan ystyried

- y gwaith y gall y gweithiwr ei wneud yn y lleoliad hwnnw
- unrhyw ofynion ychwanegol e.e. cofrestriad DBS neu CSIW
- y tywydd ar yr adeg -

dylai'r trefniant hwn fod wedi'i gytuno mewn egwyddor ymlaen llaw (yn awr) fel rhan o broses gynllunio'r Cyngor ar gyfer parhad busnes. Os cytunir bod hyn yn ymarferol, dylid rhoi i'r gweithwyr, wedi iddynt gyrraedd y lle gwaith arall, unrhyw waith, dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol sy'n gydnaws â'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u gallu corfforol. Ni ddylai unrhyw weithwyr adael y lle gwaith arall hwn heb ganiatâd y rheolwr llinell yn y lleoliad hwnnw.

b) Os oes trefniadau gweithio hybrid ar gael i staff neu drefniadau gweithio ystwyth addas eraill, gyda chytundeb penodol y rheolwr llinell, gall gweithwyr weithio o'r cartref. Os nad oes trefniadau gweithio hybrid neu drefniadau gweithio ystwyth eraill ar gael ond ei bod yn bosib gweithio o'r cartref, efallai y caniateir i'r gweithiwr wneud hynny gyda chytundeb penodol y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

c) Os nad yw a) na b) yn ymarferol, bydd raid i'r gweithiwr adennill amser gweithio a gollwyd o ganlyniad i'r tywydd garw trwy weithio amser ychwanegol drwy'r cynllun oriau hyblyg, lle bo hynny'n berthnasol. Os nad yw gweithiwr yn rhan o'r cynllun oriau hyblyg, gellir gweithio'r oriau a gollwyd yn ôl ar adeg arall ar yr amod bod y rheolwr llinell yn cytuno; neu

ch) Gellir defnyddio gwyliau blynyddol yn lle'r amser gweithio a gollwyd.

3. Lle nad oes yr un o'r opsiynau uchod ar gael/yn bosib, fel dewis olaf, bydd yn ofynnol i'r gweithiwr gymryd absenoldeb di-dâl a gellid tynnu swm o'r cyflog sy'n cyfateb â'r amser a gollwyd.

4. Ni fydd modd hawlio absenoldeb arbennig os yw'r daith i/o'r gwaith yn cymryd mwy o amser nag arfer oherwydd amodau tywydd garw.

**B – Pan fo'r tywydd yn arw yn ystod y diwrnod gwaith**

1. Ni ddylai unrhyw weithiwr adael y gwaith **heb** gael caniatâd y rheolwr llinell ymlaen llaw. Bydd y rheolwr yn ystyried anghenion y gwasanaeth a'r amodau teithio a ragwelir ar gyfer y gweithiwr. Os oes trefniadau gweithio hybrid ar gael i staff neu drefniadau gweithio ystwyth addas eraill, gyda chytundeb penodol y rheolwr llinell, gall gweithwyr weithio o'r cartref. Os nad oes trefniadau gweithio hybrid neu drefniadau gweithio ystwyth eraill ar gael ond ei bod yn bosib gweithio o'r cartref, efallai y caniateir gwneud hynny gyda chytundeb penodol y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd unrhyw amser gweithio a gollwyd gan y gweithiwr yn cael ei adennill drwy'r opsiynau a restrir yn **Adran A** uchod.

2. Os yw gweithiwr (sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion) yn gofyn am ganiatâd i adael y gwaith oherwydd ymrwymiadau gofal plant yn sgil cau ysgolion o ganlyniad i'r tywydd garw, bydd y rheolwr yn cefnogi'r cais lle bynnag y bo hynny'n bosib, gan ystyried anghenion y gwasanaeth ac ymrwymiadau gofal plant y gweithiwr. Bydd unrhyw amser a gollir gan y gweithiwr yn cael ei adennill drwy'r opsiynau yn Adran

A uchod a'r Polisi Absenoldeb Arbennig ac Absenoldeb Gofalwyr sydd ar gael i'w lawr lwytho ar Monitor.

3. Ni chaniateir absenoldeb arbennig os yw'r gweithiwr yn penderfynu gadael y gwaith yn gynnar oherwydd amodau tywydd a/neu deithio.

4. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn penderfynu atal gwasanaethau a/neu gau adeilad neu leoliad arall oherwydd amodau tywydd garw, rhoddir caniatâd arbennig i weithwyr adael y lle gwaith yn cynnar. Bydd hyn hefyd yn wir hefyd am weithwyr sy'n cyrraedd eu lle gwaith ac yn darganfod bod y Cyngor wedi'i gau.

5 . Bydd y penderfyniad i atal darparu gwasanaeth a/neu gau prif Adeiladau'r Cyngor yn cael ei wneud gan y swyddog uchaf ar y safle ar y diwrnod hwnnw, a hynny mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Priffyrdd, ac ar ôl ystyried y canlynol:

- "cyflwr y ffyrdd"
- y rhagolygon tywydd ar gyfer gweddill y diwrnod
- unrhyw ddeddfwriaeth / amodau iechyd a diogelwch a fod yn berthnasol

Fodd bynnag, gall amodau tywydd amrywio'n fawr ledled yr Ynys a bydd angen i Benaethiaid Gwasanaeth unigol ystyried hynny a chysylltu gyda'r swyddog uchaf yn un o brif adeiladau'r Cyngor mewn perthynas â chau safleoedd y tu allan i ardal Llangefni.

**IECHYD A DIOGELWCH**

Er y bydd yr Awdurdod yn sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles ei holl weithwyr yn y gwaith, mae gan weithwyr hefyd gyfrifoldeb i gymryd gofal rhesymol dros eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a phobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu esgeulustra. Mae hyn yn cynnwys cymryd gofal ychwanegol wrth deithio i ac o'r gwaith mewn tywydd garw.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod tywydd garw yn effeithio'n benodol ar weithwyr â swyddi sy'n cynnwys gyrru neu weithio yn yr awyr agored yn bennaf. Bydd yr Awdurdod yn cynnal asesiadau risg rheolaidd er mwyn sicrhau bod gweithwyr sy'n gweithio dan y fath amodau'n cael eu cyfarwyddo'n briodol, yn meddu ar y dillad a'r offer priodol, ac yn cael digon o seibiannau gorffwys.

**CAMDDEFNYDDIO'R POLISI**

Os tybir bod gweithiwr wedi camddefnyddio'r polisi tywydd garw hwn, bydd Trefn Ddisgyblu'r Cyngor yn cael ei gweithredu.

Mae'r polisi hwn yn disodli unrhyw bolisi, dull gweithredu, arfer neu gyfeiriadau mewn dogfennau eraill at drefniadau Adnoddau Dynol ar gyfer ymdrin â thywydd garw mewn perthynas â'r staff.

*Rhagfyr 2016 (DJ)*
*Adolygwyd 2019 (DJ)*
*Adolygwyd 2022 (KH)*